

# Cynllun Archwiliadau Clinigol Cenedlaethol ac Adolygu Canlyniadau GIG Cymru

## Rhaglen Dreigl Flynyddol 2022/23

### Mehefin 2022

Mae'r Cynllun Archwiliadau Clinigol Cenedlaethol ac Adolygu Canlyniadau yn cadarnhau'r rhestr o Archwiliadau Clinigol Cenedlaethol ac Adolygiadau o Ganlyniadau y disgwylir i bob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth gymryd rhan ynddynt yn 2022-23 (lle maent yn darparu'r gwasanaeth). Mae'r cynllun yn cadarnhau sut y bydd canfyddiadau archwiliadau ac adolygiadau yn cael eu defnyddio i fesur a sbarduno gwelliannau yn ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.

Mae Adran 1 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i barhau i hyrwyddo gwasanaeth iechyd cynhwysfawr a gynlluniwyd i sicrhau gwelliant yn iechyd corfforol a meddyliol pobl Cymru. Mae adran 2 o'r Ddeddf honno yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud unrhyw beth i hwyluso, neu sy'n ffafriol neu'n gysylltiedig â chyflawni'r ddyletswydd honno.

#### 1. Beth rydym am ei gyflawni?

Mae angen i GIG Cymru fod yn sefydliad sy'n dysgu ac sy'n ymdrechu'n rheolaidd i fesur ansawdd ei wasanaethau yn ôl safonau sy'n gwella'n gyson ac sydd hefyd yn cymharu ei wasanaethau â systemau gofal iechyd ar hyd a lled y DU, Ewrop a gweddill y byd. Dylid defnyddio'r mesur hwn i bennu blaenoriaethau gwella. Mae Llywodraeth Cymru a GIG Cymru wedi ymrwymo i egwyddorion gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth i helpu i ymateb i heriau costau cynyddol a galw cynyddol, tra'n parhau i wella ansawdd y gofal.

Mae archwilio clinigol yn rhan annatod o'r broses gwella ansawdd ac mae wedi ymwreiddio yn safonau gofal iechyd Cymru.

#### 2. Y rhaglen o archwiliadau

Mae rhaglen archwiliadau y cytunwyd arni gan GIG Cymru yn cynnwys y rhan fwyaf o archwiliadau a gefnogir ar hyn o bryd gan y Rhaglen ar gyfer Archwiliadau Clinigol Cenedlaethol a Chanlyniadau i Gleifion (NCAPOP) a reolir

gan y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP), ond gall hefyd gynnwys nifer o archwiliadau cenedlaethol neu amlsefydliadol eraill y cydnabyddir eu bod yn hanfodol.

HQIP sy'n comisiynu'r Rhaglen Adolygu Canlyniadau Clinigol (Ymholiadau Cyfrinachol gynt) ar ran Llywodraeth Cymru, GIG Lloegr, NHSSPS Gogledd Iwerddon, ISD yr Alban, a llywodraethau Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw. Cynlluniwyd y rhaglen i helpu i asesu ansawdd gofal iechyd ac i ysgogi gwelliannau ym maes diogelwch ac effeithiolrwydd drwy fynd ati'n systematig i alluogi clinigwyr, rheolwyr a'r rhai sy'n gwneud polisiau i ddysgu oddi wrth ddigwyddiadau andwyol a data perthnasol eraill.

Cyhoeddir y rhestr derfynol y cytunwyd arni o archwiliadau ac adolygiadau yn flynyddol. Mae'r rhaglen ar gyfer 2022-23 i'w gweld yn Atodiad A.

### **3. Sut y caiff cyfranogiad, dysgu a gweithredu ar ganfyddiadau ei hybu ledled Cymru?**

#### **Parhau i hybu archwilio:**

- Adborth yn ymwneud â pherfformiad wedi'i feincnodi yn achos darparwyr unigol mewn archwiliadau clinigol ac adolygiadau i sefydliadau fel y bo'n briodol i'w hystyried a gweithredu arnynt.
- Trwy godi proffil archwiliadau clinigol gyda byrddau, grwpiau cleifion, clinigwyr a'r holl staff sy'n gweithio yn y GIG. Cynnwys ymweliadau sefydliadol a chyswilt â chyrff proffesiynol yng Nghymru i hybu archwilio ymhlieth eu disgylblaethau a'u harbenigedd.
- Datblygu partneriaethau agosach gan weithio gyda thimau archwilio clinigol byrddau iechyd/ymddiriedolaethau i wella gwybodaeth a dealltwriaeth o weithgareddau archwilio/adolygu cenedlaethol a lleol.
- Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau gofal iechyd eraill e.e. Iechyd Cyhoeddus Cymru, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) i hyrwyddo a hybu diwylliant o gyfranogiad mewn archwilio a gweithredu ar ganfyddiadau.

#### **Nodi meysydd lle mae angen ymagwedd genedlaethol at welliant:**

- Adolygu problemau sy'n codi o archwiliadau ac adolygiadau ac sy'n gyffredin i holl ddarparwyr gofal iechyd Cymru, a rhannu'r atebion.

- Drwy sicrhau bod canfyddiadau ac argymhellion archwiliadau yn cael eu hystyried yn llawn gan y grwpiau/rhwydweithiau cynghori cenedlaethol priodol.
- Gweithio mewn partneriaeth, drwy HQIP a chyda thimau prosiect archwilio, i sicrhau bod casgliadau ac atebion yn cael eu nodi ar gyfer Cymru yn benodol, a datblygu a threfnu gweithdai a digwyddiadau i'w rhannu.

### **Mynd i'r afael â gwasanaethau clinigol lle gallai perfformiad beri pryder:**

- Nodi perfformiad cymharol darparwyr unigol yn glir a deall y rhesymau dros unrhyw wahaniaethau.
- Sicrhau bod materion yn cael eu hystyried mewn cyfarfodydd adolygu perfformiad rheolaidd rhwng byrddau ieched/ymddiriedolaethau ac yng nghyfarfodydd Bwrdd Cyflawni Ansawdd Llywodraeth Cymru.
- Protocol yn cadarnhau'r trefniadau ar gyfer nodi ac ymdrin â'r sefydliadau a nodir yn 'Allanolion' yn yr archwiliadau a'r adolygiadau, gan gynnwys gweithgarwch a gynlluniwyd i wella a hybu ansawdd gwasanaethau.

### **Gwell tryloywder:**

- Drwy geisio gwella'r ffordd y mae canfyddiadau, argymhellion a chamau gwella o archwiliadau ac adolygiadau ar gael i gleifion, y cyhoedd a'r holl staff sy'n gweithio yn y GIG.

### **4. Beth yw rôl Llywodraeth Cymru?**

Bydd Llywodraeth Cymru, ynghyd â DHCW yn ceisio hybu mwy o gyfranogiad a dysgu o archwiliadau ac adolygiadau clinigol gan arwain at well gwasanaethau, gwell canlyniadau i gleifion a gofal mwy diogel i gleifion.

Mae Llywodraeth Cymru yn aelod o Grŵp Partneriaid NCAPOP ac mae'n darparu safbwyt a chyd-destun Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr archwiliadau'n cyd-fynd â'r cynllun hirdymor yng Nghymru.

### **5. Beth yw Rôl Iechyd a Gofal Digidol Cymru**

DHCW yw'r rheolydd data ar y cyd â HQIP ar gyfer cyflawni unrhyw archwiliadau a gomisiynwyd gan HQIP fel rhan o NCAPOP.

Fel rhan o'i swyddogaethau statudol fel Awdurdod Iechyd Arbennig, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn bod DHCW yn nodi cyfleoedd rhannu data i gefnogi clinigwyr a rhwydweithiau yng Nghymru ac yn rhoi cyngor a chymorth i fyddau iechyd.

## 6. Beth yw cyfrifoldebau byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd Cymru?

Dylai byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau Cymru ddarparu'r adnoddau i alluogi eu staff i gymryd rhan ym mhob archwiliad, adolygiad a chofrestr genedlaethol a gynhwysir yn y cynllun blynnyddol (lle maent yn darparu'r gwasanaeth). Dylent sicrhau bod y cylch archwilio llawn yn cael ei gwblhau a bod canfyddiadau ac argymhellion o archwiliad yn cysylltu'n uniongyrchol â'r rhaglen gwella ansawdd ac yn arwain at well gofal a chanlyniadau i gleifion.

Er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl o'r rhaglen archwilio clinigol dylai byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau:

- Sicrhau bod yr adnoddau, y strwythurau llywodraethiant a sefydliadol angenrheidiol ar waith i gefnogi ymgysylltiad cyflawn mewn archwiliadau, adolygiadau a chofrestri cenedlaethol a gynhwysir yn y Cynllun blynnyddol.
- Penodi arweinydd clinigol i weithredu fel hyrwyddwr a phwynt cyswllt ar gyfer pob Archwiliad Clinigol cenedlaethol ac Adolygiad Canlyniadau, y mae'r bwrdd iechyd yn cymryd rhan ynddo. Dylai byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd hefyd annog a chefnogi arweinwyr clinigol i ymgymryd â'r rôl cynrychiolydd Cymru gyfan ar grwpiau a rhwydweithiau llywio archwilio a lle bo angen.
- Sicrhau bod proses gydnabyddedig ffurfiol ar gyfer adolygu perfformiad y sefydliadau pan gyhoeddir adroddiadau. Dylai'r adolygiad hwn ystyried gwelliannau (yn yr arfaeth neu wedi'u cwblhau) a chynnwys proses uwchgyfeirio i sicrhau bod y bwrdd gweithredu'n cael gwybod am unrhyw broblemau'n ymwneud â chymryd rhan mewn archwiliadau, gwella yn erbyn argymhellion.
- Cael llinellau cyfathrebu clir, sy'n sicrhau ymgysylltiad llawn y bwrdd wrth ystyried archwilio ac adolygu canfyddiadau a, lle bo angen, y broses newid i sicrhau bod ansawdd a diogelwch gwasanaethau'n gwella.

- Gweithio gyda DHCW i hwyluso'r defnydd ehangach o ddata o gofrestrau archwilio a chenedlaethol i'w defnyddio fel gwybodaeth ategol ar gyfer ail-ddilysu meddygol ac adolygu gan gymheiriaid
- Sicrhau bod gwersi sydd wedi'u dysgu o archwilio ac adolygu yn cael eu rhannu ar draws y sefydliad a'u cyfleu i staff a chleifion.
- Bydd Cytundebau Rhannu Data presennol rhwng Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn cael eu defnyddio ar gyfer y digwyddiad rhannu gwybodaeth, a dylid cofnodi hyn ar y Gofrestr Llifoedd Gwybodaeth Genedlaethol a gedwir gan DHCW.
- Bydd DHCW, Byrddau Iechyd Lleol a'r Ymddiriedolaethau yn cynhyrchu Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd Data (DPIAs) fel sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â'r GDPR lle mae data adnabyddadwy newydd i'w rannu neu ei brosesu mewn ffordd arall.

Mewn blynnyddoedd blaenorol, rhoddwyd y dasg i fyrrdau iechyd gwblhau proforma i'w ddarparu i Lywodraeth Cymru ar gyfer pob adroddiad archwilio cyhoeddus. Wrth i'r broses archwilio aeddfedu, mae canlyniadau archwilio yn bwydo i mewn i ystod o rwydweithiau a datblygu polisi ac felly penderfynwyd bod y proformâu hyn yn haen ychwanegol, nad oes eu hangen mwyach. O 2022/23 ymlaen, ni fydd angen proformâu rheolaidd i Lywodraeth Cymru bellach ar gyfer pob archwiliad. Gall swyddogion polisi Llywodraeth Cymru ofyn am adborth pan fo angen.

## **7. Sut y byddwn yn mesur llwyddiant?**

Trwy ystyried o flwyddyn i flwyddyn, adroddiadau archwilio ac o'u cymharu â systemau gofal iechyd eraill y DU, Ewrop a Rhyngwladol, penderfynu sut y mae cydymffurfiad ag arferion gorau a chyflawni canlyniadau gofal iechyd yn cymharu â meincnodau cenedlaethol a rhyngwladol.

Bydd y meini prawf allweddol canlynol hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer pwysa a mesur llwyddiant:

- Pob un o'r byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd (pan fo'n berthnasol) yn cyfranogi'n llawn yn y rhaglen o Archwiliadau Clinigol Cenedlaethol ac Adolygiadau o Ganlyniadau, gan gadarnhau achosion ar lefel briodol a chyflwyno setiau data cyflawn
- Llai o amrywiad rhwng gwasanaethau lleol a pherfformiad yn gwella'n fesuradwy o'r naill flwyddyn i'r llall gan ymgryraedd at y safonau uchaf. Sefydliadau'n cael eu cydnabod fel rhai sy'n uwch na "chyfartaledd" yr archwiliad neu o fewn y chwartel uchaf ar gyfer pob archwiliad a chynnal y lefel honno.

- Gwelliannau yn ansawdd a diogelwch canlyniadau a phrofiad cleifion a achosir gan ddysgu a chamau gweithredu sy'n deillio o ganfyddiadau adroddiadau'r Archwiliad Clinigol Cenedlaethol a'r Adolygiad o Ganlyniadau Clinigol.

## **8. Sut y byddwn yn cynnal llwyddiant?**

Mantais y dull archwilio a gwella ansawdd y fantais yw bod modd ymgysylltu â'r rhai sydd mewn sefyllfa i sicrhau a chynnal newid a'r rhai y disgwylir iddynt sicrhau a chynnal newid yn ddyddiol. Mae gan y dull hwn hanes amlwg o ddarparu a chynnal gwelliannau i wasanaethau ar gyfer amrywiaeth o faterion mewn amrywiaeth o leoliadau. Lle ceir disgwyliadau o ran darparu a chynnal gofal a chanlyniadau o ansawdd gwell, dylid defnyddio'r dull archwilio a gwella ansawdd fel cam cyntaf bob tro.

## **9. Casgliad**

Bydd canfyddiadau ac argymhellion archwiliad clinigol cenedlaethol, adolygiadau o ganlyniadau a mathau eraill o adolygiadau ac asesiadau'n un o'r prif fecanweithiau ar gyfer asesu ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir gan fyrrdau iechyd ac ymddiriedolaethau yng Nghymru.

Yn unol â'r uchelgais a ddatganwyd gennym i ddatblygu gwasanaeth gofal iechyd a gydnabyddir fel un o'r goreuon yn y byd, ac i sbarduno gwelliant, bydd y broses archwiliadau clinigol hefyd yn cael ei defnyddio i asesu gwasanaethau gofal iechyd Cymru yn erbyn darparu gwasanaethau tebyg mewn gwledydd eraill ledled y DU, Ewrop ac yn rhyngwladol.

## Atodiad A

**Rhaglen Flynyddol ar gyfer 2022 - 23 o Archwiliadau Clinigol  
Cenedlaethol ac Adolygiadau o Ganlyniadau y mae rhaid i bob bwrdd  
iechyd ac ymddiriedolaeth yng Nghymru gymryd rhan ynddynt (lle y  
darperir gwasanaethau)**

| Acíwt   | Hafan gwefan yr archwiliad                                     | Cyswilt  | Casglu data yn 2022/23                 |
|---|--|--|--|
| Y Gofrestrfa Cymalau Genedlaethol                                     | <a href="http://www.njrcentre.org.uk">www.njrcentre.org.uk</a> | <a href="mailto:enquiries@njrcentre.org.uk">enquiries@njrcentre.org.uk</a> | Ydy (Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon) |
| Archwiliad Laparotomi Argyfwng Cenedlaethol *                         | <a href="http://www.nela.org.uk">www.nela.org.uk</a>           | <a href="mailto:info@rcoa.ac.uk">info@rcoa.ac.uk</a>                       | Ydy (Cymru a Lloegr)                   |
| Case Mix Programme (CMP)  | <a href="http://www.icnarc.org">www.icnarc.org</a>             | <a href="mailto:cmp@icnarc.org">cmp@icnarc.org</a>                         | Ydy (Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon) |
| Archwiliadau Trawma Mawr.<br>Rhwydwaith Ymchwil Archwiliadau Trawma # | <a href="https://www.tarn.ac.uk/">https://www.tarn.ac.uk/</a>  | <a href="mailto:support@tarn.ac.uk">support@tarn.ac.uk</a>                 | Ydy Lloegr a Gogledd Iwerddon)         |

| Cyflyrau Hirdymor   | Hafan gwefan yr archwiliad  | Cyswilt  | Casglu data yn 2022/23 |
|---|---|--|------------------------|
| Archwiliad Diabetes Cenedlaethol *  | Cyffredinol:<br><a href="https://digital.nhs.uk">https://digital.nhs.uk</a>   |  | (Cymru a Lloegr)       |
| <b>Noder bod hyn yn cynnwys y meysydd a ganlyn:</b><br><br>Archwiliad Diabetes Cenedlaethol - Gofal | Gofal Traed:<br><a href="https://digital.nhs.uk/data-and-information/clinical-audits-and-registries/national-diabetes-foot-care-audit">https://digital.nhs.uk/data-and-information/clinical-audits-and-registries/national-diabetes-foot-care-audit</a><br><br>NaDia: | <a href="mailto:ndfa@nhs.net">ndfa@nhs.net</a><br><br><a href="mailto:nadia@nhs.net">nadia@nhs.net</a> | Ydy                    |

|       |  |  |     |
|-------|--|--|-----|
| Traed | <p><a href="https://digital.nhs.uk/data-and-information/clinical-audits-and-registries/national-diabetes-inpatient-audit">https://digital.nhs.uk/data-and-information/clinical-audits-and-registries/national-diabetes-inpatient-audit</a></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Archwiliad Diabetes Cenedlaethol - Diogelwch Cleifion Mewnol (NDISA)</li> </ul> <p>Beichiogrwydd:<br/> <a href="https://digital.nhs.uk/data-and-information/clinical-audits-and-registries/national-pregnancy-in-diabetes-audit">https://digital.nhs.uk/data-and-information/clinical-audits-and-registries/national-pregnancy-in-diabetes-audit</a></p> <p>Craidd:<br/> <a href="https://digital.nhs.uk/data-and-information/clinical-audits-and-registries/national-diabetes-audit">https://digital.nhs.uk/data-and-information/clinical-audits-and-registries/national-diabetes-audit</a></p> |  | Ydy |
|       | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Archwiliad Cenedlaethol Diabetes mewn Beichiogrwydd</li> </ul>  | <a href="mailto:npid@nhs.net">npid@nhs.net</a>         | Ydy |
|       | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Archwiliad Diabetes Craidd Cenedlaethol</li> </ul>  | <a href="mailto:diabetes@nhs.net">diabetes@nhs.net</a> | Ydy |

  

|  |   |  |                      |
|--|---|--|----------------------|
| Archwiliad Diabetes Paediatric Cenedlaethol (NPDA) * #   | <a href="http://www.rcpch.ac.uk/npda">www.rcpch.ac.uk/npda</a>  | <a href="mailto:npda@rcpch.ac.uk">npda@rcpch.ac.uk</a>         | Ydy (Cymru a Lloegr) |
| Rhaglen Archwilio Genedlaethol Asthma a COPD (NACAP)* #<br><b>Noder bod hyn yn cynnwys y meysydd a ganlyn:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gofal Eilaidd CVOPD</li> <li>• Asthma mewn Oedolion</li> </ul> | <p><a href="https://www.rcplondon.ac.uk/projects/national-copd-audit-programme">https://www.rcplondon.ac.uk/projects/national-copd-audit-programme</a></p> <p><a href="https://www.rcplondon.ac.uk/projects/national-asthma-and-copd-audit-programme-nacap-secondary-care-workstream-copd">https://www.rcplondon.ac.uk/projects/national-asthma-and-copd-audit-programme-nacap-secondary-care-workstream-copd</a></p> <p><a href="https://www.rcplondon.ac.uk/projects/national-asthma-and-copd-audit-programme-nacap-secondary-care-workstream-adult-asthma">https://www.rcplondon.ac.uk/projects/national-asthma-and-copd-audit-programme-nacap-secondary-care-workstream-adult-asthma</a></p> <p><a href="https://www.rcplondon.ac.uk/projects/national-asthma-and-copd-audit-programme-nacap-secondary-care-workstream-adult-asthma">https://www.rcplondon.ac.uk/projects/national-asthma-and-copd-audit-programme-nacap-secondary-care-workstream-adult-asthma</a></p> | <a href="mailto:copd@rcplondon.ac.uk">copd@rcplondon.ac.uk</a> | Ydy (Cymru a Lloegr) |

|  |   |   |  |
|--|---|---|--|
| <ul style="list-style-type: none"> <li>Gofal Eilaidd<br/>Asthma Pediatrig</li> <li>Adsefydlu<br/>Ysgyfeintiol</li> </ul> | <p><a href="#"><u>and-copd-audit-programme-nacap-secondary-care-workstream-children-and-young</u></a></p> <p><a href="#"><u>https://www.rcplondon.ac.uk/projects/national-asthma-and-copd-audit-programme-nacap-pulmonary-rehabilitation-workstream</u></a></p> |   |  |
| Cofrestrfa Arenol<br>(Therapi Amnewid Arenol)<br>#   | <a href="#"><u>https://ukkidney.org/about-us/who-we-are/uk-renal-registry</u></a>   | <a href="#"><u>renalregistry@renalregistry.nhs.uk</u></a> | Ydy<br>(Cymru,<br>Lloegr a<br>Gogledd<br>Iwerddon) |
| Archwiliad<br>Cenedlaethol Arthritis<br>Llidiol Cynnar<br>* #  | <a href="#"><u>https://www.rheumatology.org.uk/Practice-Quality/Audits/NEIA-Audit</u></a>   | <a href="#"><u>bsr@rheumatology.org.uk</u></a>            | Ydy<br>(Cymru a<br>Lloegr)                         |
| Archwiliad Awdioleg<br>Cymru Gyfan #   |   |   | Ydy<br>(Cymru yn<br>unig)                          |

| Pobl Hŷn   | Hafan gwefan yr archwiliad   | Cyswllt  | Casglu data yn 2022/23                             |
|--|--|--|--|
| Archwiliad<br>Cenedlaethol ar gyfer<br>Strôc - Sentinel<br>(SSNAP)<br>*  | <a href="#"><u>www.strokeaudit.org</u></a>   | <a href="#"><u>ssnap@rcplondon.ac.uk</u></a>   | Ydy<br>(Cymru,<br>Lloegr a<br>Gogledd<br>Iwerddon) |
| Rhaglen Archwilio<br>Toresglyn yn sgil<br>Cwympriadau ac<br>Eiddilwch gan gynnwys<br><br><ul style="list-style-type: none"> <li>Archwiliad<br/>Cenedlaethol o<br/>Gwympriadau<br/>Cleifion Mewnol</li> <li>Cronfa Ddata<br/>Genedlaethol ar<br/>Dorri Cluniau</li> </ul> | <a href="#"><u>https://www.rcplondon.ac.uk/projects/falls-and-fragility-fracture-audit-programme-fffap</u></a> | <p><a href="#"><u>FFFAP@rcplondon.ac.uk</u></a></p> <p><a href="#"><u>Cwympriadau Cleifion Mewnol falls@rcplondon.ac.uk</u></a></p> <p><a href="#"><u>Y Gronfa Ddata ar dorri cluniau nhfd@rcplondon.ac.uk</u></a></p> <p>Cronfa Ddata Genedlaethol ar Dorri Cluniau</p> <p><a href="#"><u>FLSDB@rcplondon.ac.uk</u></a></p> | Ydy<br>(Cymru,<br>Lloegr a<br>Gogledd<br>Iwerddon) |

|   |  |  |                      |
|---|--|--|----------------------|
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cronfa Ddata Cydgylltu Torri Esgyrn</li> </ul> |  |  |                      |
| Archwiliad Cenedlaethol o Ddementia *   | <a href="http://www.nationalauditofdementia.org.uk">www.nationalauditofdementia.org.uk</a> | <a href="mailto:nad@rcpsych.ac.uk">nad@rcpsych.ac.uk</a> | Ydy (Cymru a Lloegr) |

| Diwedd Oes  | Hafan gwefan yr archwiliad  | Cyswllt  | Casglu data yn 2022/23          |
|---|---|--|---------------------------------|
| Archwiliad Cenedlaethol o Ofal ar Ddiwedd Oes (NACEL) * | <a href="https://www.nhsbenchmarking.nhs.uk/nacel">https://www.nhsbenchmarking.nhs.uk/nacel</a> | <a href="mailto:enquiries@nhsbenchmarking.nhs.uk">enquiries@nhsbenchmarking.nhs.uk</a> | I'w gadarnhau (Cymru a Lloegr ) |

| Y galon  | Hafan gwefan yr archwiliad   | Cyswllt  | Casglu data yn 2022/23                                       |
|--|--|--|--|
| Rhaglen Archwilio Genedlaethol y Galon (NCAP) <ul style="list-style-type: none"> <li>• Archwiliad Cenedlaethol o Fethiant y Galon *</li> </ul> | <a href="https://www.nicor.org.uk/">https://www.nicor.org.uk/</a><br><br><a href="https://www.nicor.org.uk/national-cardiac-audit-programme/heart-failure-heart-failure-audit/">https://www.nicor.org.uk/national-cardiac-audit-programme/heart-failure-heart-failure-audit/</a><br><br><a href="https://www.nicor.org.uk/national-cardiac-audit-programme/cardiac-rhythm-management-arrhythmia-audit/">https://www.nicor.org.uk/national-cardiac-audit-programme/cardiac-rhythm-management-arrhythmia-audit/</a><br><br><a href="https://www.nicor.org.uk/national-cardiac-audit-programme/adult-cardiac-surgery-surgery-audit/">https://www.nicor.org.uk/national-cardiac-audit-programme/adult-cardiac-surgery-surgery-audit/</a><br><br><a href="https://www.nicor.org.uk/adult-percutaneous-coronary-interventions-angioplasty-audit/">https://www.nicor.org.uk/adult-percutaneous-coronary-interventions-angioplasty-audit/</a><br><br><a href="https://www.nicor.org.uk/nat">https://www.nicor.org.uk/nat</a> | <a href="mailto:nicor-auditenquiries@bartshealth.nhs.uk">nicor-auditenquiries@bartshealth.nhs.uk</a> | (Cymru a Lloegr)<br><br>Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy |
| Archwiliad Cenedlaethol o Reoli Rhythm y Galon *   |  |  |  |
| • Archwiliad Cenedlaethol o Lawfedygyaeth y Galon i Oedolion *   |  |  |  |
| • Archwiliad Cenedlaethol o myriadau   |  |  |  |

|  |   |  |  |
|--|---|--|--|
| coronaidd sylfaenol drwy'r croen (PCI) (Angioplasti Coronaidd)*    | <a href="https://www.nicor.org.uk/national-cardiac-audit-programme/congenital-heart-disease-in-children-and-adults-congenital-audit/">https://www.nicor.org.uk/national-cardiac-audit-programme/congenital-heart-disease-in-children-and-adults-congenital-audit/</a> |  | Ydy                                    |
| • Archwiliad Cenedlaethol o Glefyd Cynhenid y Galon * #            | <a href="https://www.nicor.org.uk/national-cardiac-audit-programme/myocardial-ischaemia-minap-heart-attack-audit/">https://www.nicor.org.uk/national-cardiac-audit-programme/myocardial-ischaemia-minap-heart-attack-audit/</a>                                       |  | Ydy                                    |
| • Prosiect Archwiliad Cenedlaethol Ischaemia Myocardaidd (MINAP) * |   |  |  |
| Archwiliad Cenedlaethol o Adsefydlu Cardiaidd                      | <a href="http://www.cardiacrehabilitation.org.uk/">http://www.cardiacrehabilitation.org.uk/</a>   | <a href="mailto:corinna.petre@york.ac.uk">corinna.petre@york.ac.uk</a> | Ydy (Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon) |
| Archwiliad o'r Gofrestrafa Fasgwlaidd Genedlaethol *               | <a href="http://www.vsqip.org.uk">www.vsqip.org.uk</a>  | <a href="mailto:nvr@rcseng.ac.uk">nvr@rcseng.ac.uk</a>                 | Ydy                                    |

| Canser   | Hafan gwefan yr archwiliad  | Cyswllt  | Casglu data yn 2022/23 |
|--|---|--|------------------------|
| Archwiliad Cenedlaethol o Ganser yr Ysgyfaint *    | <a href="https://www.rcplondon.ac.uk/projects/national-lung-cancer-audit">https://www.rcplondon.ac.uk/projects/national-lung-cancer-audit</a><br><br>Ar 1 Chwefror 2022, trosglwyddodd y prosiect i Goleg Brenhinol y Llawfeddygon Lloegr. Roedd yn cael ei redeg gynt gan Goleg Brenhinol y Ffisigwyr. | <a href="mailto:nlca@rcplondon.ac.uk">nlca@rcplondon.ac.uk</a> | Ydy (Cymru a Lloegr)   |
| Canser y Prostad *                                 | <a href="http://www.nPCA.org.uk">www.nPCA.org.uk</a>  | <a href="mailto:nPCA@rcseng.ac.uk">nPCA@rcseng.ac.uk</a>       | Ydy (Cymru a Lloegr)   |
| Rhaglen Archwilio Canser Gastroberfeddol (GICAP) * | <a href="http://www.nboca.org.uk">www.nboca.org.uk</a>  | <a href="mailto:bowelcancer@nhs.net">bowelcancer@nhs.net</a>   | Ydy (Cymru a Lloegr)   |

• Archwiliad Cenedlaethol Canser y Coluddyn

<https://www.nogca.org.uk/>

[og.cancer@nhs.net](mailto:og.cancer@nhs.net)

|  |   |  |                            |
|--|---|--|----------------------------|
| • Archwiliad<br>Cenedlaethol o<br>Ganser Oesoffago-<br>gastig                  |   |  |                            |
| Archwiliad<br>Cenedlaethol Canser y<br>Fron mewn Pobl Hŷn<br>(NABCOP)<br><br>* | <a href="https://www.nabcop.org.uk/">https://www.nabcop.org.uk/</a> | <a href="mailto:nabcop@rcseng.ac.uk">nabcop@rcseng.ac.uk</a> | Ydy<br>(Cymru a<br>Lloegr) |

| Iechyd Menywod a Phlant                                   | Hafan gwefan yr archwiliad  | Cyswllt  | Casglu data yn 2022/23           |
|---|---|--|----------------------------------|
| Gofal Dwys Pediatric (PICaNet)<br>* #                     | <a href="http://www.picanet.org.uk">www.picanet.org.uk</a>  | <a href="mailto:picanet@leeds.ac.uk">picanet@leeds.ac.uk</a>     | Ydy<br>(y DU)                    |
| Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol<br><br>* #  | <a href="http://www.rcpch.ac.uk/nnap">www.rcpch.ac.uk/nnap</a>  | <a href="mailto:enquiries@rcpch.ac.uk">enquiries@rcpch.ac.uk</a> | Ydy<br>(Cymru a Lloegr)          |
| Archwiliad Cenedlaethol Mamolaeth ac Amenedigol<br><br>*# | <a href="http://www.maternityaudit.org.uk/pages/home">http://www.maternityaudit.org.uk/pages/home</a> | <a href="mailto:nmpa@rcog.org.uk">nmpa@rcog.org.uk</a>           | Ydy<br>(Cymru, Lloegr a'r Alban) |
| Offeryn Adolygu Marwolaethau Amenedigol Cenedlaethol      | <a href="https://www.npeu.ox.ac.uk/pmt">https://www.npeu.ox.ac.uk/pmt</a>                             | <a href="mailto:general@npeu.ox.ac.uk">general@npeu.ox.ac.uk</a> | Ydy<br>(Cymru, Lloegr a'r Alban) |

| Arall   | Hafan gwefan yr archwiliad  | Cyswllt  | Casglu Data yn 2022/23 |
|---|---|--|------------------------|
| Archwiliad Clinigol Cenedlaethol o Drawiadau ac Epilepsi ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (Epilepsi12) *# | <a href="https://www.rcpch.ac.uk/work-we-do/quality-improvement-patient-safety/epilepsy12-audit">https://www.rcpch.ac.uk/work-we-do/quality-improvement-patient-safety/epilepsy12-audit</a> | <a href="mailto:enquiries@rcpch.ac.uk">enquiries@rcpch.ac.uk</a> | I'w gadarnhau          |
| Archwiliad Clinigol Cenedlaethol Seicosis   | <a href="https://www.rcpsych.ac.uk/improving-care/ccqi/national-clinical-">https://www.rcpsych.ac.uk/improving-care/ccqi/national-clinical-</a>   | <a href="mailto:NCAP@rcpch.ac.uk">NCAP@rcpch.ac.uk</a>           | Ydy (Cymru a Lloegr)   |

|   |  |  |  |
|---|--|--|--|
| * | <u>audits/national-clinical-audit-of-psychosis</u> |  |  |
|---|--|--|--|

(\* yn dynodi Archwiliadau NCAPOP)  
 (#yn dynodi adroddiadau sy'n debygol o gynnwys gwybodaeth am blant a/neu wasanaethau mamolaeth)

## Atodiad B

### Rhaglen Adolygu Canlyniadau Clinigol

Mae'r **Rhaglen Adolygu Canlyniadau Clinigol** (CORP) wedi'i chynllunio i helpu i asesu ansawdd gofal iechyd ac ysgogi gwelliant mewn diogelwch ac effeithiolrwydd drwy alluogi dysgu o ddigwyddiadau andwyol a data perthnasol arall. Ei nod yw cydategu a chyfrannu at waith asiantaethau eraill fel NICE, y Colegau Brenhinol ac astudiaethau ymchwil academaidd, sy'n cefnogi newidiadau i wella gofal iechyd y GIG.

Heb ddata o ansawdd uchel, mae'n annhebygol y byddwn yn gweld gwelliannau mewn gofal clinigol. Mae archwiliadau clinigol cenedlaethol ac adolygiadau canlyniadau yn canolbwytio ar feysydd gofal iechyd sy'n cael eu hystyried yn bwysig, lle mae materion yn peri pryder yn aml a lle bo canlyniadau cenedlaethol yn cael eu hystyried yn hanfodol i wella arferion a safonau.

Gyda'r gallu i fesur yn erbyn safonau cydnabyddedig a chymharu gwasanaethau ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol, mae archwiliadau clinigol ac adolygiadau canlyniadau yn arfau pwerus iawn i asesu ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu. O'u defnyddio fel rhan o'r cylch ehangach i wella ansawdd, maent yn darparu system gadarn ar gyfer ysgogi newidiadau i wasanaethau a gwella canlyniadau i gleifion, ond mae cyfranogiad llawn a phenderfyniad i ddysgu o'r canfyddiadau yn hanfodol.

Dyfarnwyd contractau darparu gwasanaethau'r rhagleni hyn i'r cyflenwyr canlynol (darperir dolenni i hafan eu gwefannau):

| Rhaglen Adolygu Canlyniadau Clinigol | Hafan gwefan yr archwiliad  | Cyswllt        | Casglu data yn 2022/23 |
|--------------------------------------|---|----------------|------------------------|
| Rhaglen Adolygu                      | <a href="http://www.ncepod.org.uk/">http://www.ncepod.org.uk/</a> | ncepod@nhs.net | (Cymru,                |

|  |  |  |  |
|--|--|--|--|
| Canlyniadau<br>Clinigol<br>Meddygol a<br>Llawfeddygol<br><br>*                                     | I gynnwys:<br><ul style="list-style-type: none"> <li>- Niwmonia sydd wedi'i ddal yn y gymuned</li> <li>- Clefyd Crohn's</li> <li>- Endometriosis</li> <li>- Gofal diwedd oes</li> </ul>  |  | Lloegr)<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy |
| Rhaglen<br>Adolygu<br>Canlyniadau<br>Clinigol Iechyd<br>Meddwl<br><br>*                            | <a href="http://research.bmh.manchester.ac.uk/cmhs/research/centreforsuicideprevention/nci">http://research.bmh.manchester.ac.uk/cmhs/research/centreforsuicideprevention/nci</a><br><br><ul style="list-style-type: none"> <li>- Ymchwiliad Cyfrinachol Cenedlaethol i Hunanladdiad a Diogelwch mewn Iechyd Meddwl</li> </ul> | <a href="mailto:ncish@manchester.ac.uk">ncish@manchester.ac.uk</a> | (Cymru,<br>Lloegr)<br>Ydy                  |
| Rhaglen<br>Adolygu<br>Canlyniadau<br>Clinigol Plant<br><br>*#                                      | <a href="http://www.ncepod.org.uk/">http://www.ncepod.org.uk/</a><br><br><ul style="list-style-type: none"> <li>- Pontio o wasanaethau iechyd plant i wasanaethau iechyd oedolion</li> <li>- Dirdro caill</li> </ul>   | <a href="mailto:ncepod@nhs.net">ncepod@nhs.net</a>                 | (Cymru,<br>Lloegr)<br>Ydy                  |
| Rhaglen<br>Adolygu<br>Canlyniadau<br>Clinigol Mamau,<br>y Newydd-<br>anedig a<br>Babanod<br><br>*# | <a href="https://www.npeu.ox.ac.uk/mbrace-uk">https://www.npeu.ox.ac.uk/mbrace-uk</a>  | <a href="mailto:general@npeu.ox.ac.uk">general@npeu.ox.ac.uk</a>   | (Y DU)<br>Ydy                              |